**Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004**

**Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (Rheoliad 16)**

**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Diwygio 2015) (Rheoliad 25)**

# Hysbysiad o Fabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol: Cynllun Datblygu Lleol Newydd Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2018-2033

Ar 13 Mawrth 2024, fe wnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) 2018-2033 ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Daeth y CDLIN yn weithredol ar ddyddiad ei fabwysiadu. Mae'n disodli Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) mabwysiedig blaenorol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2006-2021.

Y CDLIN a fabwysiadwyd yw'r cynllun datblygu ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a hwn fydd yn sail i benderfyniadau ynglŷn â chynllunio defnydd tir yn yr ardal. Mae'n nodi polisïau allweddol a dyraniadau defnydd tir a fydd yn trefnu dyfodol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac yn rhoi arweiniad ar gyfer datblygu hyd at 2033.

Mae'r CDLIN a fabwysiadwyd, Adroddiad yr Arolygydd sy'n derfynol, yr Adroddiad Terfynol ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (sy'n ymgorffori'r Asesiad Amgylcheddol Strategol) a'r Datganiad Mabwysiadu hwn ar gael i'w harchwilio yn ystod oriau agor arferol yn:

- CBSP, Y Dderbynfa, Y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB Llyfrgell Symudol;
- Llyfrgell Abercynffig, Heol y Llyfrau, Abercynffig, CF32 9PT;
- Llyfrgell Betws, Canolfan Fywyd Betws, Heol Betws, Betws, CF32 8PT;
- Llyfrgell Pen-y-bont ar Ogwr, Canolfan Fywyd Pen-y-bont ar Ogwr, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4AH
- Llyfrgell Maesteg, North's Lane, Maesteg, CF34 9AA;
- Llyfrgell Cwm Ogwr, Canolfan Fywyd Cwm Ogwr, Aber Road, Cwm Ogwr, CF32 7AJ
- Llyfrgell Pen-coed, Heol Penybont, Pen-coed, CF35 5RA;
- Llyfrgell Pontycymer, Canolfan Fywyd Cwm Garw, Iard yr Hen Orsaf, Pontycymer, CF32 8ES;
- Llyfrgell Porthcawl, Church Place, Porthcawl, CF36 3AG;
- Llyfrgell Y Pîl, Canolfan Fywyd Y Pîl, Helig Fan, Y Pîl, CF33 6BS;

- Llyfrgell Sarn, Canolfan Dysgu Gydol Oes Sarn, Merfield Close, Sarn, CF32 9SW;
- Llyfrgell Llynfi, Canolfan Chwaraeon Maesteg, Hen Safle'r Efail, Nant-y-Crynwyd, Maesteg, CF34 9EB.

Mae'r CDLIN a fabwysiadwyd a'r dogfennau cysylltiedig uchod hefyd ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor yn: https://www.bridgend.gov.uk/residents/planning-and-building-control/development-planning/replacement-bridgend-local-development-plan-2018-to-2033/.

Gall rhywun sy'n teimlo iddo/iddi gael cam gan y CDLI ac sy'n dymuno cwestiynu ei ddilysrwydd ar y sail nad yw o fewn y pwerau a roddir gan Ran 6 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, neu na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf honno neu unrhyw reoliad a wnaed dan y Ddeddf honno mewn perthynas â mabwysiadu'r CDLIN, gyflwyno cais, o fewn chwe wythnos i'r dyddiad a nodir ar yr Hysbysiad Mabwysiadu, i'r Uchel Lys dan Adran 113 o Ddeddf 2004.

Gellir cyflwyno unrhyw ymholiadau:

- dros y ffôn 01656 643633
- trwy'r e-bost developmentplanning@bridgend.gov.uk
- trwy ysgrifennu i'r cyfeiriad canlynol: Cynllunio Strategol, Y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB

Richard Matthams
Rheolwr Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth